
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Parc Tredelerch a'r Morglawdd i Lanbedr Gwynllŵg, Caerdydd

## Dihangwch o fywyd prysur y ddinas yng Nghaerdydd a mwynhewch ychydig o dawelwch gyda'r daith gerdded hon ar hyd Aber Afon Hafren.

*"Er eich bod mewn amgylchedd trefol, cewch ymdeimlad eich bod ar fin ymadael â hynny. Pan rydych yn cyrraedd morglawdd Cors Crychydd, mae modd gweld Aber Afon Hafren yn ymestyn o'ch blaenau. Mae posib gweld gwahanol adar hirgoes yma pan fo'r llanw yn iawn, ac er ei fod yn agos iawn at Gaerdydd, gall fod yn hamddenol iawn yma. "*

**TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Parc Tredelerch, Ffordd Lamby (yno ac yn ôl).

### Pellter:

4 milltir/6km.

### Ar hyd y ffordd...

Mae'r daith gerdded hon yn mynd â chi ar hyd glannau Aber Afon Hafren, drwy gefn gwlad gwyrdd a heb ei gyffwrdd sy'n syndod o agos at dirlun trefol Caerdydd. Cyn dechrau, mae'n werth archwilio Parc Tredelerch, ardal o lyn a gwlypdir sy'n byrlymu â bywyd gwyllt (os ydych chi'n chwilio am daith fyrrach, gallech ddilyn y llwybr 1.3 cilomedr byr o amgylch y llyn).

Pan fyddwch chi'n barod i fynd, dilynwch Lwybr Arfordir Cymru a chroesi'r ffordd i Gors Crychydd. Mae'r llwybr yn mynd â chi ar hyd y cwrs dŵr (a adnabyddir fel ffos ddraenio) yr holl ffordd i'r morglawdd.

Wrth fynd, edrychwch am anifeiliaid fel glas y dorlan, llygod pengrwn y dŵr, ysgyfarnogod, gylfinirod a chornchwiglod. Mae yna hefyd fyrddau dehongli ym Mharc Tredelerch ac ar y morglawdd ger Cors Crychydd sy'n rhoi mwy o wybodaeth am amgylchedd a bywyd gwyllt Afon Hafren, sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Wrth gerdded i'r dwyrain ar hyd y morglawdd mwynhewch y golygfeydd pellgyrhaeddol ar draws yr aber i arfordir Lloegr ar yr ochr arall. Mae'r llwybr yn parhau ar hyd y morglawdd lle daw llwybr â chi i Ffordd Gwynllŵg. Dilynwch y ffordd mewn i bentref bychan Llanbedr Gwynllŵg am fwyd a diod yn y dafarn leol, cyn ei dychwelyd i'ch man cychwyn.

### Angen gwybod:

Mae maes parcio ym Mharc Tredelerch. Er nad oes cyfleusterau ar y llwybr, mae yna gaffi gyda thoiledau yn siop Tesco wrth ddechrau'r daith a thafarn yn Llanbedr Gwynllŵg.